TGAU

# CBAC TGAU Daearyddiaeth

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Manyleb

Addysgu o 2025

Dyfarnu o 2027

Fersiwn 6 - Medi 2026



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a Gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Daearyddiaeth sy'n nodi'r gofynion pwnc benodol ar gyfer cymwysterau TGAU Daearyddiaeth o fis Medi 2025 a thu hwnt.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif tudalen |
|---|---|---|
| 2 | "cyfreithlon" ac "anghyfreithlon" wedi newid i "rheolaidd" ac "afreolaidd" | 15 a 16 |
| 3 | Newid i'r rheol derfynol | 40 a 41 |
| 4 | 'cyrion' wedi newid i 'cyrion gwledig-trefol' | 17 |
| | Terminoleg wedi'i diweddaru | 12, 13, 25, 27, 28 |
| 5 | Newid i'r rheol derfynol yn cynnwys gwybodaeth am ymgeiswyr ôl 16 | 40 |
| 5a | Newidiadau terminoleg ar sail penderfyniad terfynol Canolfan Bedwyr (Canolfan Gwasanaethau, Ymchwil a Thechnoleg Cymraeg Prifysgol Bangor). Cadarnhad o'r canlynol: precipitation (of rain, snow, etc) = dyodiad (maes Daearyddiaeth), deposit / deposition = dyddodi / dyddodiad / dyddodyn / dyddodion (maes Daearyddiaeth a Gwyddoniaeth pe bai'n codi); sediment / sedimentation = gwaddodi / gwaddod / gwaddodion (maes Daearyddiaeth a Gwyddoniaeth). | Drwyddi draw |
| 6 | Diweddarwyd yr adran asesu er mwyn egluro sut y dylai canolfannau gyflwyno'r datganiad gwaith maes, gofynion y datganiad gwaith maes a therfyn amser cyflwyno'r datganiad gwaith maes. | 37 |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## CYNNWYS

TGAU DAEARYDDIAETH ........ 5
CRYNODEB O'R ASESU ........ 5
1. CYFLWYNIAD ........ 6
    1.1 Nodau ........ 6
    1.2 Cwricwlwm i Gymru ........ 6
    1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant ........ 8
    1.4 Oriau dysgu dan arweiniad ........ 8
    1.5 Defnyddio iaith ........ 9
    1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg ........ 9
2 CYNNWYS Y PWNC ........ 10
    Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ........ 10
    Uned 1 ........ 10
    Uned 2 ........ 18
    Uned 3 ........ 24
    Uned 4 ........ 33
    Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ........ 35
3 ASESU ........ 36
    3.1 Amcanion asesu a phwysoli ........ 36
    3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad ........ 37
4 CAMYMDDWYN ........ 39
5 GWYBODAETH DECHNEGOL ........ 40
    5.1 Cofrestru a dyfarnu ........ 40
    5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ........ 41
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 42
Atodiad B: Defnyddio mathemateg ac ystadegau mewn daearyddiaeth ........ 45

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# TGAU DAEARYDDIAETH

## CRYNODEB O'R ASESU

| |
|---|
| **Uned 1**: **Ein Byd Ffisegol a Dynol**<br>Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**90 marc** |
| Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig, a rhai'n seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. |
| **Uned 2: Datblygu Sgiliau Gwaith Maes**<br>Asesiad di-arholiad: 7 awr (heb gynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i wneud y gwaith maes)<br>**25% o'r cymhwyster**<br>**90 marc** |
| Wedi'i gosod a'i marcio gan CBAC.<br>Bydd CBAC yn gosod dau faes testun bob blwyddyn o blith y canlynol: llifoedd daearyddol, anheddiad, cynaliadwyedd, lliniaru risg, anghydraddoldeb, lle a gofod, newid dros amser. |
| **Uned 3: Ein Byd Dynamig ac Amrywiol**<br>Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**90 marc** |
| Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig, a rhai'n seiliedig ar sefyllfaoedd cymhwysol. |
| **Uned 4: Datrysiadau Cynaliadwy**<br>Asesiad di-arholiad: 6 awr (3 awr i ymchwilio a 3 awr i ymateb i dasgau)<br>**15% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
| Wedi'i gosod gan CBAC, ei marcio gan y Ganolfan a'i chymedroli gan CBAC. |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

Ac eithrio Uned 1, sy'n uned ragarweiniol, nid yw trefn gyflwyno'r tair uned arall yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

Bydd unedau 1-3 ar gael o 2026, gydag Uned 4 ar gael yn 2027.

Caiff y cymhwyster ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2027.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/4967/6

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# TGAU DAEARYDDIAETH

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae TGAU Daearyddiaeth yn cefnogi dysgwyr i:

- ddod yn ddaearyddwyr annibynnol, cytbwys ac ystyriol gyda dealltwriaeth fanwl o ryngberthnasoedd gofodol a'r byd sy'n newid
- gwerthfawrogi natur gymhleth, luosog ac amrywiol cymdeithasau a'u rhyngweithiadau â thirweddau ffisegol amrywiol a deinamig
- dangos safbwynt daearyddol ar werthoedd, agweddau a phersbectifau ynglŷn â'r rhyngberthnasoedd rhwng pobl a'u hamgylchedd
- cymhwyso dealltwriaeth ac ymarfer daearyddol at amrediad o gyd-destunau ac ymholiadau
- meithrin chwilfrydedd i archwilio achosion, effeithiau a chanlyniadau daearyddol
- gwneud synnwyr o'r byd er mwyn gweithio tuag at ddyfodol cynaliadwy.

Caiff y nodau hyn eu gosod gan Cymwysterau Cymru yn eu Meini Prawf Cymeradwyo.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r cymhwyster TGAU Daearyddiaeth hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd.

Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau pwnc-benodol hynny a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Rydym hefyd wedi ystyried lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodir yn 'Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu' ar dudalen 34. Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Mae'r cymhwyster TGAU Daearyddiaeth yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[1], gan roi cyfle i'r dysgwyr:
  - meithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r dyniaethau, a sut i'w cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang
  - helpu dysgwyr i gasglu, cyfiawnhau, cyflwyno, dadansoddi a gwerthuso ystod o dystiolaeth
  - archwilio sut a pham y gall dehongliadau wahaniaethu, ac wrth ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o ystod o ddehongliadau a ffyrdd o gyfleu elfennau a gasglwyd o amrywiaeth o dystiolaeth, bod mewn sefyllfa well i werthuso pa mor ddilys yw'r rhain
  - profi rhyfeddod y byd naturiol
  - deall a gwerthfawrogi sut a pham mae lleoedd, tirweddau ac amgylcheddau yn newid, yn lleol, yng Nghymru yn ogystal ag yn fyd-eang
  - datblygu dealltwriaeth o sut y gall gweithredoedd dynol yn y gorffennol a'r presennol effeithio ar y berthynas rhwng y byd naturiol a phobl
  - dwysau ymwybyddiaeth dysgwyr o'r modd y mae'r gweithredoedd hyn yn dylanwadu ar gynaliadwyedd ein byd yn y dyfodol a'r newid yn yr hinsawdd
  - gwerthfawrogi sut mae esblygiad lleoedd, cymunedau a chymdeithasau yn cael ei sbarduno gan y rhyngweithio sydd rhwng ystod o ffactorau, gan gynnwys prosesau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol, ynghyd â gweithredoedd pobl
  - meithrin dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru a'r byd rhyng-gysylltiedig ehangach
  - datblygu fel dinasyddion byd-eang hunanymwybodol, gwybodus ac egwyddorol sy'n myfyrio'n feirniadol ar eu credoau, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain ac eraill.

- cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
  - ofyn cwestiynau ymholi cynyddol soffistigedig
  - dangos mwy o annibyniaeth wrth ddod o hyd i wybodaeth addas, gan wneud rhagfynegiadau a damcaniaethau gwybodus, a gwneud penderfyniadau
  - cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol
  - meithrin dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain yn y byd
  - dangos y gallu i weithio gyda nifer cynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig, a dealltwriaeth gynyddol o ffyrdd o ymdrin â hanesion anghyson neu sy'n gwrthdaro
  - dangos gallu cynyddol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau newydd, a chynyddol anghyfarwydd.

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/
[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/egwyddorion-cynnydd/

© WJEC CBAC Ltd. 2024

- cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol ar gyfer Daearyddiaeth[3]drwy:
    - gynnig cyfleoedd i ddeall ac ymchwilio i dirweddau ffisegol a dynol, a chyd-destun ar gyfer achosion a chanlyniadau rhyngberthnasoedd a rhyngddibyniaeth ffisegol a dynol sy'n nodweddu ein byd modern
    - cynnig cyfleoedd i ddeall ac ymchwilio i faterion daearyddol allweddol
    - darparu sgiliau i'r dysgwyr gwestiynu, defnyddio a dadansoddi mapiau, delweddau a systemau gwybodaeth ddaearyddol
    - darparu sgiliau daearyddol i'r dysgwyr ffurfio cwestiynau ymchwil, ac i gasglu, trin a chyflwyno data fel eu bod yn gallu gwerthuso a meddwl yn feirniadol am broblemau a materion
    - darparu amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored, drwy gyfrwng gwaith maes a'r ystafell ddosbarth yn yr awyr agored, ac i brofi a myfyrio ar ryfeddod y byd naturiol mewn amrywiaeth o amgylcheddau ffisegol, dynol a hanesyddol.

Mae'r cymhwyster TGAU Daearyddiaeth yn seiliedig ar y cysyniadau daearyddol a ganlyn:

- lle a gofod[4]
- graddfa
- proses
- parhad a newid
- rhyngberthnasoedd
- amrywiaeth
- amgylchedd
- dehongli.

Mae pob un o'r cysyniadau hyn wedi'i fapio i gysyniadau a nodwyd yng nghanllawiau 'cynllunio eich cwricwlwm' Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a chamau cynnydd y Dyniaethau.

## 1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio daearyddiaeth naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4 Oriau dysgu dan arweiniad

Lluniwyd y TGAU Daearyddiaeth i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#ystyriaethau-penodol-ar-gyfer-y-maes-hwn
[4] Mae'r ddau gysyniad hyn wedi'u rhoi gyda'i gilydd oherwydd y gydberthynas naturiol sy'n perthyn iddyn nhw.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwyr gael mynediad a llwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Gwneir trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr cymwys fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd ac er mwyn eu galluogi i ddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w cael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' yn cael ei ddefnyddio pan nad oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd ar y cynnwys dan sylw yn fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at y dogfennau Canllawiau Addysgu i gael arweiniad pellach ynghylch y dyfnder a'r ehangder sy'n ofynnol wrth addysgu'r cynnwys hwn.
- Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn cael ei ddefnyddio pan mae gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol.
- Mae ‘Dylai dysgwyr ddeall’ yn cael ei ddefnyddio pan fydd yn ofynnol i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder o ran gwybodaeth a dealltwriaeth, cymhwyso gwybodaeth i gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallu dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan mae angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu ddangos sgiliau a thechnegau ymarferol yn cael eu cymhwyso.

Mae 'gan gynnwys' yn golygu bod rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae defnyddio'r geiriau 'er enghraifft' neu 'fel' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

## Uned 1

**Ein Byd Ffisegol a Dynol**

Arholiad ysgrifenedig
30% o'r cymhwyster
90 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- cyflwyno dysgwyr i gysyniadau allweddol i'w harchwilio yn ystod y cwrs
- archwilio daearyddiaeth ffisegol a dynol yn gyfartal
- cynnwys testunau craidd a fydd yn gosod cyd-destun y cwrs ac yn rhoi'r cefndir sy'n angenrheidiol i gwblhau'r tair uned arall.

Dylai dysgwyr hefyd ddatblygu eu sgiliau mathemategol ac ystadegol wrth baratoi ar gyfer yr Uned hon. Mae dyfnder yr ymdriniaeth sydd ei hangen â'r sgiliau hyn wedi'i nodi yn Atodiad B ar dudalennau 44-45 y fanyleb.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Meysydd cynnwys**

| **1.1 Dalgylch afon ac afonydd** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.1.1 Y gylchred hydrolegol fyd-eang<br>1.1.2 Y system dalgylch afon<br>1.1.3 Nodweddion dalgylch afon<br>1.1.4 Ffactorau sy'n dylanwadu ar brosesau a thirffurfiau dalgylch afon<br>1.1.5 Sut mae tirffurfiau dalgylch afon yn cael eu creu<br>1.1.6 Rhyngberthnasoedd rhwng afonydd a phobl<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, graddfa, proses, parhad a newid, rhyngberthnasoedd a'r amgylchedd. | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 1.1.1<br>Y gylchred hydrolegol fyd-eang | Dylai dysgwyr wybod beth yw nodweddion system gaeedig.<br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• y llifoedd a'r storfeydd sy'n gweithredu yn y gylchred hydrolegol fyd-eang<br>• sut mae dŵr yn symud drwy'r gylchred hydrolegol fyd-eang. |
| 1.1.2<br>Y system dalgylch afon | Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• nodweddion system agored<br>• beth yw ystyr y term dalgylch afon.<br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• y mewnbynnau, y trosglwyddiadau, y storfeydd a'r allbynnau sy'n gweithredu mewn dalgylch afon<br>• sut mae dŵr yn symud drwy'r dalgylch afon<br>• sut mae faint o ddŵr sydd mewn dalgylch afon yn amrywio'n dymhorol. |
| 1.1.3<br>Nodweddion dalgylch afon | Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• nodweddion dalgylch afon, gan gynnwys:<br>    • sianel<br>    • cydlifiad<br>    • gorlifdir<br>    • aber<br>    • tarddle<br>    • llednant<br>    • gwahanfa ddŵr<br>• y prosesau sy'n gweithredu mewn dalgylch afon, gan gynnwys:<br>    • hindreuliad<br>    • erydiad<br>    • trawsgludiad<br>    • dyddodiad. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.1.4<br>Ffactorau sy'n dylanwadu ar brosesau a thirffurfiau dalgylch afon | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• nodweddion newidiol y sianel o hydbroffil yr afon, gan gynnwys newidiadau i drawsbroffil<br>• ffactorau naturiol sy'n dylanwadu ar gyfraddau erydu a dyddodi:<br>    • arllwysiad<br>    • daeareg<br>    • graddiant<br>    • felosedd yr afon. |
| 1.1.5<br>Sut mae tirffurfiau dalgylch afon yn cael eu creu | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• datblygiad tirffurfiau erydol yng nghwrs uchaf a chanol afonydd, gan gynnwys:<br>    • ceunentydd<br>    • plymbyllau<br>    • rhaeadrau<br>• datblygiad tirffurfiau dyddodol, yng nghwrs canol ac isaf afonydd, gan gynnwys:<br>    • gorlifdiroedd<br>    • ystumiau afon<br>    • ystumllynnoedd<br>• enghraifft o ddyffryn afon yn lleol neu yng Nghymru i nodi'r prif dirffurfiau a grëwyd gan erydiad a dyddodiad. |
| 1.1.6<br>Rhyngberthnasoedd rhwng afonydd a phobl | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut mae pobl yn defnyddio afonydd a'u tirffurfiau mewn ffyrdd cynaliadwy ac anghynaliadwy:<br>    • gorlifdiroedd ar gyfer ffermio<br>    • adeiladu tai ar orlifdir<br>    • afonydd ar gyfer pŵer trydan dŵr<br>    • rhaeadrau ar gyfer twristiaeth<br>• effaith afonydd a'u tirffurfiau ar bobl, gan gynnwys:<br>    • llifogydd a'u heffeithiau cysylltiedig<br>    • erydiad, trawsgludiad a dyddodiad mewn amgylcheddau afonydd<br>    • dulliau caled a meddal o ran peirianneg afonydd/rheoli afonydd.<br><br>Dylai dysgwyr wybod sut mae'r ffactorau hyn wedi dylanwadu ar newidiadau ar hyd rhan o afon yn lleol neu yng Nghymru. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| 1.2 Morliniau sy'n newid | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.2.1 Y prosesau sy'n gweithredu ar hyd morlin<br>1.2.2 Tonnau adeiladol a distrywiol<br>1.2.3 Datblygiad tirffurfiau erydol<br>1.2.4 Datblygiad tirffurfiau dyddodol<br>1.2.5 Ffactorau dynol a ffisegol sy'n effeithio ar gyfraddau newid morlin<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, graddfa, proses, parhad a newid, rhyngberthnasoedd a'r amgylchedd. | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 1.2.1<br>Y prosesau sy'n gweithredu ar hyd morlin | Dylai dysgwyr wybod beth yw'r prosesau sy'n gweithredu ar hyd morlin, gan gynnwys:<br>• hindreuliad<br>• màs-symudiad<br>• erydiad<br>• trawsgludiad<br>• dyddodiad.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y prosesau sy'n gweithredu mewn dalgylch afon a'r prosesau sy'n gweithredu ar hyd morlin. |
| 1.2.2<br>Tonnau adeiladol a distrywiol | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• ffurfiant tonnau<br>• nodweddion tonnau adeiladol a thonnau distrywiol<br>• rôl cyrch y tonnau wrth ddylanwadu ar nodweddion tonnau<br>• sut mae newidiadau tymhorol i egni tonnau yn arwain at wahanol broffiliau traeth. |
| 1.2.3<br>Datblygiad tirffurfiau erydol | Dylai dysgwyr ddeall sut mae prosesau arfordirol yn rhyngweithio i greu'r tirffurfiau erydol canlynol:<br>• trefn ogof, bwa, stac, stwmp<br>• clogwyni<br>• pentiroedd a baeau<br>• llyfndir tonnau.<br><br>Dylai dysgwyr wybod am enghraifft o forlin yn lleol neu yng Nghymru lle gellir dod o hyd i dirffurfiau erydol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.2.4<br>Datblygiad tirffurfiau dyddodol | Dylai dysgwyr ddeall sut mae erydiad, drifft y glannau a dyddodiad yn rhyngweithio i greu'r tirffurfiau dyddodol canlynol:<br>• traeth<br>• twyn tywod<br>• tafod.<br><br>Dylai dysgwyr wybod am enghraifft o arfordir yn lleol neu yng Nghymru lle gellir dod o hyd i dirffurfiau dyddodol. |
| 1.2.5<br>Ffactorau dynol a ffisegol sy'n effeithio ar gyfraddau newid morlin | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• ffactorau ffisegol sy'n effeithio ar gyfraddau newid arfordirol, gan gynnwys:<br>    • hinsawdd<br>    • cyrch<br>    • daeareg – cysylltu ag arfordiroedd cydgordiol ac anghydgordiol<br>• ffactorau dynol sy'n effeithio ar gyfraddau newid arfordirol, gan gynnwys:<br>    • gweithgarwch dynol fel anheddiad, diwydiant ac amaethyddiaeth<br>    • gwaith peirianneg/rheoli caled a meddal<br>    • materion cynaliadwyedd yn ymwneud â rheoli newid arfordirol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod sut mae'r ffactorau hyn wedi dylanwadu ar newidiadau ar hyd rhan o arfordir yn lleol neu yng Nghymru. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**1.3 Mudo**

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:
1.3.1 Achosion mudo
1.3.2 Effeithiau mudo
1.3.3 Rheoli mudo

Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, graddfa, proses, parhad a newid, rhyngberthnasoedd, amrywiaeth a'r amgylchedd.

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 1.3.1<br>Achosion mudo | Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• beth yw ystyr y term 'mudo'<br>• dosbarthiadau mudo:<br>    • gwirfoddol neu orfodol<br>    • cenedlaethol neu ryngwladol<br>    • rheolaidd neu afreolaidd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• y rhesymau dros fudo (fel dianc rhag gwrthdaro, troseddau hawliau dynol, cyfleoedd economaidd, ymuno â'r teulu)<br>• y gwahanol resymau ffisegol a dynol dros fudo economaidd rhyngwladol:<br>    • ffactorau gwthio sy'n gysylltiedig â gwlad enedigol benodol (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a gwleidyddol)<br>    • ffactorau tynnu sy'n gysylltiedig â gwlad groesawu benodol (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a gwleidyddol). |
| 1.3.2<br>Effeithiau mudo | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• effeithiau mudo rhyngwladol ar wlad enedigol a gwlad groesawu benodol, gan gynnwys:<br>    • effeithiau mudo ar fudwyr (er enghraifft, ceiswyr lloches, ffoaduriaid)<br>    • profiadau a chyfraniadau'r rheiny sy'n mudo neu sydd wedi mudo<br>    • effeithiau mudo, fel:<br>        • draen dawn<br>        • cydlyniad y gymdeithas<br>        • integreiddio<br>        • amlddiwylliannaeth<br>        • trosglwyddo arian yn ôl gartref<br>        • arwahanu<br>        • rhannu diwylliant. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.3.3<br>Rheoli mudo | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• strategaethau sy'n cael eu defnyddio i reoli mudo rhyngwladol, fel:<br>    • rheoli mudo afreolaidd<br>    • mudo ar sail pwyntiau<br>    • teithio heb fisa<br>• ystyriaethau moesegol mudo (gan gynnwys hawliau dynol)<br>• canfyddiadau'r cyhoedd o rôl y cyfryngau wrth ddylanwadu ar ganfyddiadau'r cyhoedd o fudo. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr><th colspan="2">1.4 Newid aneddiadau</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>1.4.1 Trefoli<br>1.4.2 Patrymau defnydd tir trefol<br>1.4.3 Dinasoedd global<br>1.4.4 Trefoli mewn dinasoedd global cyferbyniol<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, graddfa, proses, parhad a newid, rhyngberthnasoedd, amrywiaeth, yr amgylchedd a dehongliad.</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>1.4.1<br>Trefoli</td><td>Dylai dysgwyr wybod beth yw ystyr y broses drefoli.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae cyfraddau trefoli wedi newid dros amser a rhwng lleoedd.</td></tr>
<tr><td>1.4.2<br>Patrymau defnydd tir trefol</td><td>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng patrymau defnydd tir trefol dinasoedd mewn gwledydd cyferbyniol a'r rhesymau ffisegol a dynol dros y gwahaniaethau hyn<br>• nodweddion gwahanol sectorau dinas:<br>  • Canol Busnes y Dref (CBD)<br>  • cyrion gwledig-trefol<br>  • aneddiadau anffurfiol<br>  • dinas fewnol<br>  • maestrefi.</td></tr>
<tr><td>1.4.3<br>Dinasoedd global</td><td>Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• y gwahaniaeth rhwng:<br>  • dinasoedd global<br>  • mega-ddinasoedd<br>• enghreifftiau penodol o bob un o'r uchod a'u lleoliad a'u dosbarthiad byd-eang.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pam y gellir ystyried dinas yn ddinas global a pham fod barn pobl ynglŷn â hyn yn amrywio.</td></tr>
<tr><td>1.4.4<br>Trefoli mewn dinasoedd global cyferbyniol</td><td>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• achosion ac effeithiau trefoli<br>• Ymatebion i'r problemau sy'n cael eu hachosi gan drefoli<br>• materion cynaliadwyedd yn ymwneud ag ymatebion i'r problemau sy'n cael eu hachosi gan drefoli<br>• hunaniaethau diwylliannol penodol<br>mewn dwy ddinas global gyferbyniol.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 2

**Datblygu Sgiliau Gwaith Maes**

Asesiad di-arholiad – ymholiad gwaith maes
Wedi'i gosod a'i marcio gan CBAC
25% o'r cymhwyster
90 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:
- archwilio gwaith maes a sgiliau
- datblygu dealltwriaeth o'r model ymholi chwe cham.

Dylai dysgwyr hefyd ddatblygu eu sgiliau mathemategol ac ystadegol wrth baratoi ar gyfer yr Uned hon. Mae dyfnder yr ymdriniaeth sydd ei hangen â'r sgiliau hyn wedi'i nodi yn Atodiad B ar dudalennau 44-45 y fanyleb.

**Meysydd cynnwys**

| **2.1 Cynllunio ymholiad** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.1.1 Y broses ymholi chwe cham<br>2.1.2 Gofyn cwestiynau ymholi<br>2.1.3 Defnyddio mapiau i leoli a chynllunio'r ymholiad<br>2.1.4 Ystyriaethau o ran risg a chyfyngiadau<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, graddfa, proses, parhad a newid, rhyngberthnasoedd, amrywiaeth a'r amgylchedd. | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.1.1<br>Y broses ymholi chwe cham | Dylai dysgwyr wybod am y broses ymholi chwe cham.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut:<br>• mae pob cam yn cefnogi camau eraill yn y broses<br>• i ddewis testun ar gyfer ymholiad. |
| 2.1.2<br>Gofyn cwestiynau ymholi | Dylai dysgwyr wybod sut i ofyn cwestiynau ymholi.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall rôl cwestiynau ymholi wrth gynllunio'r broses ymholi.<br><br>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• cynllunio a llunio cwestiynau ymholi o fewn pwnc penodol<br>• cyfiawnhau'r cwestiynau ymholi<br>• nodi'r canlyniadau a ragfynegir<br>• cyfiawnhau'r canlyniadau a ragfynegir gan gyfeirio at wybodaeth a dealltwriaeth ddaearyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 2.1.3<br>Defnyddio mapiau i leoli a chynllunio'r ymholiad | Dylai dysgwyr allu cynllunio ymholiad drwy:<br>• ddefnyddio mapiau Arolwg Ordnans *(OS)* priodol i leoli safleoedd astudiaethau gwaith maes drwy ddefnyddio cyfeirnodau grid pedwar a chwe ffigur, gan sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth gywir (er enghraifft, graddfa, saeth y gogledd, allwedd a theitl)<br>• dehongli data'r Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol *(GIS)* sydd ar gael ac sy'n berthnasol. |
| 2.1.4<br>Ystyriaethau o ran risg a chyfyngiadau | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• adnabod pa risgiau diogelwch sydd angen eu hystyried yn y maes ac awgrymu strategaethau a fydd yn lleihau'r risgiau hyn<br>• cydnabod yr angen i fod yn ddaearyddwyr ymatebol, trwy gydnabod ystyriaethau moesegol, gan gynnwys hawliau dynol ac amrywiaeth, wrth ymchwilio i'r byd o'u cwmpas<br>• Ystyried effaith cyfyngiadau eraill ar gasglu data, fel:<br>    • hygyrchedd<br>    • argaeledd data eilaidd<br>    • cyfarpar<br>    • amser<br>    • teithio. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr><th colspan="2">2.2 Casglu tystiolaeth</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.2.1 Dewis lleoliadau a samplu<br>2.2.2 Dulliau o gasglu data cynradd<br>2.2.3 Dulliau o gasglu data eilaidd<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, graddfa, rhyngberthnasoedd a'r amgylchedd.</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>2.2.1<br>Dewis lleoliadau a samplu</td><td>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• pwysigrwydd dewis lleoliadau casglu data<br>• pwysigrwydd casglu samplau cynrychioliadol a chynhwysol<br>• y broses samplu, gan gynnwys:<br>  • ffactorau sy'n dylanwadu ar faint y sampl<br>  • y dewis o ddulliau samplu, gan gynnwys:<br>    • oportiwnistaidd<br>    • ar hap<br>    • haenedig<br>    • systematig.<br><br>Dylai’r dysgwyr allu dewis a chyfiawnhau'r canlynol:<br>• safleoedd casglu data mewn ardal benodol<br>• maint y sampl<br>• dull samplu.</td></tr>
<tr><td>2.2.2<br>Dulliau o gasglu data cynradd</td><td>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dylunio taflenni casglu data cynradd<br>• dewis a defnyddio offer gwaith maes i gael canlyniadau cywir a dibynadwy<br>• dewis a defnyddio technegau casglu data meintiol<br>• dewis a defnyddio technegau casglu data ansoddol<br>• cyfiawnhau'r dewis o ddulliau casglu data a ddefnyddiwyd.</td></tr>
<tr><td>2.2.3<br>Dulliau o gasglu data eilaidd</td><td>Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• canfod, dewis a defnyddio data eilaidd perthnasol<br>• sicrhau bod y data eilaidd a ddefnyddir yn ychwanegu gwerth at eu hastudiaeth o ran:<br>  • cyd-destun<br>  • cymharu â data cynradd<br>  • deall dibynadwyedd a dilysrwydd data eilaidd.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **2.3 Prosesu a chyflwyno tystiolaeth** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.3.1 Dewis a defnyddio technegau meintiol ac ansoddol priodol<br>2.3.2 Dewis a defnyddio dulliau cyflwyno priodol ar gyfer data meintiol ac ansoddol<br>2.3.3 Cyfeirnodi ffynonellau data eilaidd<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau graddfa, rhyngberthnasoedd a dehongliad. | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.3.1<br>Dewis a defnyddio technegau meintiol ac ansoddol priodol | Dylai dysgwyr allu dewis technegau priodol i brosesu tystiolaeth sy'n cynorthwyo gyda'r gwaith o ddehongli, gan gynnwys cyfrifo:<br>• pellter ar fapiau<br>• canolrif, cymedr, amrediad a modd<br>• canrannau<br>• technegau perthnasol eraill. |
| 2.3.2<br>Dewis a defnyddio dulliau cyflwyno priodol ar gyfer data meintiol ac ansoddol | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• nodi cryfderau a gwendidau'r gwahanol ffurfiau o gyflwyno data<br>• dewis a defnyddio mapiau priodol<br>• dewis a defnyddio graffiau priodol<br>• dewis a defnyddio data ansoddol priodol fel trawsgrifiadau grŵp ffocws, brasluniau maes neu ffotograffau. |
| 2.3.3<br>Cyfeirnodi ffynonellau data eilaidd | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• cyflwyno'r data eilaidd mewn ffordd briodol<br>• ystyried a oes mantais i randdeiliaid wrth ystyried dibynadwyedd data eilaidd<br>• cyfeirio'n gywir at bob ffynhonnell o ddata eilaidd trwy nodi ffynonellau, gan ddefnyddio llyfryddiaeth/rhestr adnoddau. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **2.4 Dadansoddi a chymhwyso tystiolaeth** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.4.1 Dewis data perthnasol i ateb y cwestiwn ymholi<br>2.4.2 Nodi, dadansoddi a dehongli tueddiadau a phatrymau<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, rhyngberthnasoedd, yr amgylchedd a dehongliad. | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.4.1<br>Dewis data perthnasol i ateb y cwestiwn ymholi | Dylai dysgwyr allu dewis:<br>• data cynradd sy'n cyfrannu at ateb y cwestiwn ymholi<br>• data eilaidd sy'n cyfrannu at ateb y cwestiwn ymholi. |
| 2.4.2<br>Nodi, dadansoddi a dehongli tueddiadau a phatrymau | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dadansoddi a chyfosod data perthnasol i ganfod patrymau a thueddiadau mewn data cynradd ac eilaidd<br>• defnyddio data i ddehongli a chyfiawnhau tueddiadau a ddisgrifir. |

| **2.5 Dod i gasgliadau** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.5.1 Dod i gasgliadau o ymholiadau gwaith maes<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, graddfa, proses, parhad a newid, rhyngberthnasoedd, amrywiaeth, yr amgylchedd a dehongliad. | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.5.1<br>Dod i gasgliadau o ymholiadau gwaith maes | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dod i gasgliadau a gefnogir sy'n ateb y cwestiynau ymholi gwreiddiol<br>• cyfeirio at eu canfyddiadau yng nghyd-destun cysyniadau daearyddol ehangach, fel:<br>  • parhad a newid<br>  • amrywiaeth<br>  • amgylchedd<br>  • dehongliad<br>  • rhyngberthnasoedd<br>  • lle a gofod<br>  • proses<br>  • graddfa. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| 2.6 Technegau gwerthuso | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>2.6.1 Gwerthuso pob cam o'r broses ymholi<br>2.6.2 Nodi meysydd ymchwilio pellach/cwestiynau y gellid eu gofyn erbyn hyn<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau graddfa, rhyngberthnasoedd a dehongliad. | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 2.6.1<br>Gwerthuso pob cam o'r broses ymholi | Dylai dysgwyr allu gwerthuso pob cam o'r broses ymholi, gan gynnwys:<br>• cynllunio'r ymholiad<br>• casglu tystiolaeth<br>• prosesu a chyflwyno data<br>• dadansoddi a chymhwyso data<br>• dod i gasgliadau. |
| 2.6.2<br>Nodi rhagor o feysydd ymchwilio/cwestiynau y gellid eu gofyn erbyn hyn | Dylai dysgwyr allu adnabod:<br>• meysydd ymchwilio pellach sydd wedi'u hysbrydoli gan eu canfyddiadau<br>• cwestiynau daearyddol sydd wedi codi o ganlyniad i'w canfyddiadau. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 3

**Ein byd dynamig ac amrywiol**

Arholiad ysgrifenedig:
30% o'r cymhwyster
90 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw cyflwyno dysgwyr i feysydd allweddol daearyddiaeth ddynol a ffisegol, gan archwilio'r rhyng-gysylltiad economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol rhwng pobl a lleoedd. Bydd dysgwyr yn ymchwilio i'r canlynol:

- anghydraddoldeb, gan ganolbwyntio ar hawliau dynol ac amrywiaeth
- y tywydd
- yr hinsawdd a newid hinsawdd
- heriau ffisegol a dynol byd-eang, gan gynnwys ffocws ar amgylcheddau sydd mewn perygl (y tir a'r môr).

Dylai dysgwyr hefyd ddatblygu eu sgiliau mathemategol ac ystadegol wrth baratoi ar gyfer yr Uned hon. Mae dyfnder yr ymdriniaeth sydd ei hangen â'r sgiliau hyn wedi'i nodi yn Atodiad B ar dudalennau 44-45 y fanyleb.

**Meysydd cynnwys**

<table>
<tr><th colspan="2">3.1 Daearyddiaeth anghydraddoldeb</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.1.1 Anghydraddoldebau rhanbarthol yng Nghymru a'r DU<br>3.1.2 Mesur datblygiad i ddosbarthu gwledydd<br>3.1.3 Y bwlch datblygiad<br>3.1.4 Lleihau'r bwlch datblygiad<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, graddfa, proses, parhad a newid, rhyngberthnasoedd, amrywiaeth, yr amgylchedd a dehongliad.</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>3.1.1<br>Anghydraddoldebau rhanbarthol yng Nghymru a'r DU</td><td>Dylai dysgwyr wybod beth yw ystyr anghydraddoldeb.<br><br>Dylai dysgwyr wybod am batrymau anghydraddoldebau yng Nghymru a'r DU, fel y rheiny a welir yn:<br>• addysg<br>• cyflogaeth<br>• buddsoddiad<br>• hil<br>• crefydd<br>• lleoliadau gwledig a threfol<br>• gwasanaethau (fel cysylltedd band eang, signal ffonau symudol).</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• achosion ffisegol a dynol anghydraddoldebau yng Nghymru a'r DU, gan gynnwys:<br>  ◦ mynediad at dai a gwasanaethau<br>  ◦ nodweddion demograffig<br>  ◦ diwydianeiddio<br>  ◦ lleoliad, tirwedd ac adnoddau<br>  ◦ trafnidiaeth a chyfathrebu<br>• sut mae'r achosion uchod o anghydraddoldeb yn aml yn rhyng-gysylltiedig, ac y gellir eu gweld mewn ffordd gadarnhaol a negyddol<br>• canlyniadau anghydraddoldeb yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys:<br>  ◦ gwahanol ganfyddiadau o anghydraddoldeb ymhlith gwahanol grwpiau o bobl<br>  ◦ amrywiadau rhanbarthol mewn cyfoeth, cyflogaeth, perfformiad ysgolion a mynediad at dai a gwasanaethau<br>  ◦ arwahanu a'r manteision a'r problemau cysylltiedig, gan gynnwys clofannau ethnig<br>• effeithiau anghydraddoldeb ar wahanol grwpiau, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol<br>• sut mae llywodraethau yng Nghymru a'r DU yn ceisio lleihau anghydraddoldebau rhanbarthol, fel:<br>  ◦ projectau isadeiledd<br>  ◦ gwella tai a gwasanaethau<br>  ◦ creu cyflogaeth<br>  ◦ addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd<br>  ◦ mentrau cysylltiadau hil. |
| 3.1.2<br>Mesur datblygiad i ddosbarthu gwledydd | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o amrywiaeth o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i gynrychioli datblygiad cymdeithasol ac economaidd, fel:<br>• mantol fasnach<br>• cymeriant caloriau<br>• sectorau cyflogaeth<br>• Cynnyrch Domestig Gros *(GDP)*<br>• Mynegrif Datblygiad Dynol *(HDI)*<br>• lefelau incwm<br>• cyfradd llythrennedd<br>• Paredd Gallu Prynu *(PPP)*<br>• poblogaeth drefol.<br><br>Dylai dysgwyr wybod sut y mae gwledydd yn cael eu dosbarthu o ran datblygiad a chontinwwm datblygiad.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall manteision ac anfanteision y ffyrdd o ddosbarthu gwledydd, er enghraifft y ffordd mae Banc y Byd yn defnyddio Gwlad Incwm Uchel (*HIC*), Gwlad Incwm Canolig (*MIC*) a Gwlad Incwm Isel (*LIC*). |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 3.1.3<br>Y bwlch datblygiad | Dylai dysgwyr wybod beth yw ystyr y term bwlch datblygiad.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall achosion ffisegol a dynol y bwlch datblygiad, gan gynnwys:<br>• trefedigaethedd<br>• nodweddion demograffig<br>• lleoliad daearyddol<br>• globaleiddio<br>• diwydianeiddio<br>• adnoddau naturiol<br>• trefoli. |
| 3.1.4<br>Lleihau'r bwlch datblygiad | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut mae llywodraethau ac asiantaethau eraill yn anelu at gau'r bwlch datblygiad gan gynnwys:<br>    • cymorth<br>    • masnach deg<br>    • Cwmnïau Amlwladol *(MNCs)*<br>    • twristiaeth<br>• llwyddiant a chynaliadwyedd strategaethau i gau'r bwlch datblygiad. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 3.2 Uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ein tywydd

Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:
3.2.1 Tywydd a hinsawdd
3.2.2 Ffactorau sy'n effeithio ar dymheredd
3.2.3 Ffactorau sy'n effeithio ar lawiad
3.2.4 Cylchrediad atmosfferig byd-eang
3.2.5 Systemau tywydd gwasgedd isel – diwasgedd
3.2.6 Systemau tywydd gwasgedd uchel – antiseiclonau

Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, graddfa, proses, parhad a newid, yr amgylchedd a dehongliad.

| Adran | Ymhelaethiad |
|---|---|
| 3.2.1<br>Tywydd a hinsawdd | Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• y gwahaniaeth rhwng tywydd a hinsawdd<br>• sut mae tymheredd a dyodiad Cymru yn amrywio'n ofodol ac yn amseryddol<br>• hinsawdd Cymru. |
| 3.2.2<br>Ffactorau sy'n effeithio ar dymheredd | Dylai dysgwyr ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar batrymau tymheredd yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• aergyrff<br>• uchder<br>• agwedd<br>• lledred<br>• ceryntau cefnforol<br>• prifwyntoedd. |
| 3.2.3<br>Ffactorau sy'n effeithio ar lawiad | Dylai dysgwyr ddeall y tri math gwahanol o lawiad:<br>• darfudol<br>• ffrynt<br>• tirwedd. |
| 3.2.4<br>Cylchrediad atmosfferig byd-eang | Dylai dysgwyr ddeall achosion gwasgedd uchel ac isel ar wyneb y ddaear, gan gynnwys tueddiadau dyodiad a newidiadau tymhorol:<br>• gwasgedd isel yn y cyhydedd (gwasgedd isel cyhydeddol) sy'n arwain at lawiad darfudol<br>• gwasgedd uchel (gwasgedd uchel isdrofannol) lle mae celloedd Hadley a Ferrel yn cwrdd gan arwain at amodau cras<br>• gwasgedd isel (gwasgedd isel tymherus) lle mae celloedd Ferrel a Polar yn cwrdd, gan achosi diwasgedd sy'n symud o'r gorllewin i'r dwyrain ar draws Cymru a'r DU<br>• dylanwad gogwydd echelinol ar hinsawdd fyd-eang. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 3.2.5<br>Systemau tywydd gwasgedd isel – diwasgedd | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• effaith systemau gwasgedd isel (diwasgedd) ar y tywydd yng Nghymru a'r DU<br>• y tywydd a ddaw yn sgil diwasgedd<br>• sut mae'r tywydd yn newid dros amser a gofod wrth i'r diwasgedd symud o'r gorllewin i'r dwyrain ar draws Cymru a'r DU, gan gynnwys:<br>    • gwasgedd aer<br>    • gorchudd cwmwl a math o gwmwl<br>    • amlder a dwyster dyodiad<br>    • tymheredd<br>    • cyflymder a chyfeiriad y gwynt. |
| 3.2.6<br>Systemau tywydd gwasgedd uchel – antiseiclonau | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• effaith systemau gwasgedd uchel (antiseiclonau) ar y tywydd yng Nghymru a'r DU<br>• y gwahaniaeth rhwng antiseiclonau haf a gaeaf, gan gynnwys:<br>    • gwasgedd aer<br>    • gorchudd cwmwl<br>    • dyodiad<br>    • tymheredd<br>    • cyflymder a chyfeiriad y gwynt. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **3.3 Tywydd garw** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.3.1 Peryglon byd-eang sy'n cael eu hachosi gan wasgedd isel eithafol<br>3.3.2 Peryglon byd-eang sy'n cael eu hachosi gan wasgedd uchel eithafol<br><br>Bydd y tesun hwn yn ymdrin â chysyniadau graddfa, proses, amrywiaeth, yr amgylchedd a dehongliad. | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 3.3.1<br>Peryglon byd-eang sy'n cael eu hachosi gan wasgedd isel eithafol | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• achosion (ffisegol a dynol)<br>• effeithiau (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol)<br>• ymateb (ymateb brys a sut gallai gael ei leihau yn y dyfodol)<br>• cynaliadwyedd yr ymatebion i ddigwyddiad tywydd byd-eang penodol a gafodd ei achosi gan wasgedd isel eithafol. |
| 3.3.2<br>Peryglon byd-eang sy'n cael eu hachosi gan wasgedd uchel eithafol | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• achosion (ffisegol a dynol)<br>• effeithiau (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol)<br>• ymatebion (ymateb brys a sut gallai gael ei leihau yn y dyfodol)<br>• cynaliadwyedd yr ymatebion i ddigwyddiad tywydd byd-eang penodol a gafodd ei achosi gan wasgedd uchel eithafol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

<table>
<tr><th colspan="2">3.4 Newid hinsawdd parhaus</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.4.1 Achosion naturiol newid hinsawdd<br>3.4.2 Achosion dynol i'r newid diweddar yn yr hinsawdd<br>3.4.3 Tystiolaeth bod ein hinsawdd yn newid<br>3.4.4 Canlyniadau newid hinsawdd<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau graddfa, proses, parhad a newid, rhyngberthnasoedd, amrywiaeth, yr amgylchedd a dehongliad.</td></tr>
<tr><td>Adran</td><td>Ymhelaethiad</td></tr>
<tr><td>3.4.1<br>Achosion naturiol newid hinsawdd</td><td>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<ul><li>achosion naturiol newid hinsawdd (cynhesu ac oeri) dros ystod o gyfnodau o amser gan gynnwys:<ul><li>cylchredau Milankovitch</li><li>brychau haul</li><li>echdoriadau folcanig.</li></ul></li></ul>Dylai dysgwyr wybod sut mae'r hinsawdd bresennol yn cymharu â chyfnodau rhewlifol a rhyngrewlifol blaenorol yn y Cyfnod Cwaternaidd.</td></tr>
<tr><td>3.4.2<br>Achosion dynol i'r newid diweddar yn yr hinsawdd</td><td>Dylai dysgwyr wybod pa nwyon tŷ gwydr sydd i'w cael yn atmosffer y ddaear a sut mae'r effaith tŷ gwydr naturiol yn gweithio.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut y gall gweithgaredd dynol gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr ac achosi effaith tŷ gwydr ychwanegol, gan gynnwys:<ul><li>carbon deuocsid:<ul><li>llosgi tanwyddau ffosil</li><li>datgoedwigo</li></ul></li><li>methan:<ul><li>ffermio</li><li>dadelfennu gwastraff</li></ul></li><li>nitrus ocsid, gan gynnwys diwydianeiddio.</li></ul></td></tr>
<tr><td>3.4.3<br>Tystiolaeth bod ein hinsawdd yn newid</td><td>Dylai dysgwyr ddeall tystiolaeth sy'n dangos bod ein hinsawdd yn newid, gan gynnwys:<ul><li>tystiolaeth tymor hir:<ul><li>data creiddiau iâ</li></ul></li><li>tystiolaeth tymor byr:<ul><li>newidiadau i gylchoedd coed (dendrocronoleg)</li><li>dangosyddion cynhesu byd y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC)/NASA</li><li>cromlin Keeling</li><li>rhewlifoedd, capiau iâ a iâ môr sy'n encilio</li><li>codiad yn lefel y môr.</li></ul></li></ul></td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 3.4.4<br>Canlyniadau newid hinsawdd | Dylai dysgwyr ddeall effeithiau newid hinsawdd yn fyd-eang.<br><br>Dylai dysgwyr wybod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar bobl a'r amgylchedd mewn dau le cyferbyniol, megis:<br>• dwy wlad mewn gwahanol gyfnodau o'r continwwm datblygu<br>• gwlad sy'n ynys o gymharu â gwlad gyfandirol<br>• gwlad â morlin o gymharu â gwlad tirgaeedig<br>• dwy ranbarth o fewn yr un wlad. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **3.5 Rheoli heriau byd-eang** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>3.5.1 Rheoli newid yn yr hinsawdd<br>3.5.2 Rheoli bygythiadau i'n cefnforoedd<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, graddfa, proses, parhad a newid, rhyngberthnasoedd, amrywiaeth, yr amgylchedd a dehongliad. | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 3.5.1<br>Rheoli newid yn yr hinsawdd | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut mae pobl ar amrywiol raddfeydd (lleol, cenedlaethol a byd-eang) yn rheoli effeithiau ffisegol a dynol newid hinsawdd<br>• cynaliadwyedd dulliau rheoli. |
| 3.5.2<br>Rheoli bygythiadau i'n cefnforoedd | Dylai dysgwyr wybod am y bygythiadau ffisegol a dynol mawr a bach i fioamrywiaeth ein cefnforoedd o ganlyniad i'r canlynol:<br>• newid hinsawdd<br>• plastigion a llygredd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• ffyrdd gwahanol o reoli bygythiadau i'n cefnforoedd ar amrywiol raddfeydd (lleol, cenedlaethol a byd-eang)<br>• cynaliadwyedd dulliau rheoli. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 4

**Datrysiadau Cynaliadwy**

Asesiad di-arholiad – Ymarferiad gwneud penderfyniadau
Wedi'i gosod gan CBAC, ei marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC
15% o'r cymhwyster
60 marc

**Trosolwg o'r uned**

Pwrpas yr uned hon yw:

- archwilio materion daearyddol presennol a dyfodol cynaliadwy
- cyflwyno'r tri philer cynaliadwyedd a'r nodau cynaliadwyedd, ar sail gweithredu
- cynyddu sgiliau datrys problemau.

Dylai dysgwyr hefyd ddatblygu eu sgiliau mathemategol ac ystadegol wrth baratoi ar gyfer yr Uned hon. Mae dyfnder yr ymdriniaeth sydd ei hangen â'r sgiliau hyn wedi'i nodi yn Atodiad B ar dudalennau 44-45 y fanyleb.

**Meysydd cynnwys**

| **4.1 Y cysyniad o gynaliadwyedd** | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>4.1.1 Datblygu syniadau o ran cynaliadwyedd<br>4.1.2 Tri philer cynaliadwyedd<br>4.1.3 Nodau cynaliadwyedd<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, rhyngberthnasoedd, yr amgylchedd a dehongliad. | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 4.1.1<br>Datblygu syniadau o ran cynaliadwyedd | Dylai dysgwyr wybod un o ddiffiniadau cynaliadwyedd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd chwilio am atebion cynaliadwy. |
| 4.1.2<br>Tri philer cynaliadwyedd | Dylai dysgwyr ddeall y tri philer cynaliadwyedd:<br>• economaidd<br>• amgylcheddol<br>• cymdeithasol. |
| 4.1.3<br>Nodau cynaliadwyedd | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• 17 Nod Datblygiad Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig<br>• sut mae'r nodau'n berthnasol i'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• sut mae'r nodau'n berthnasol i'r tri philer cynaliadwyedd<br>• sut y gall y nodau gyfrannu at atebion cynaliadwy. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| 4.2 Gwneud penderfyniadau cynaliadwy | |
|---|---|
| Yn y testun hwn bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd canlynol:<br>4.2.1 Sgiliau gwneud penderfyniadau<br>4.2.2 Defnyddio tystiolaeth i nodi problemau<br>4.2.3 Manteision posibl datrysiadau sy'n cael eu cynnig<br>4.2.4 Effeithiau negyddol posibl datrysiadau sy'n cael eu cynnig<br>4.2.5 Asesiad o'r effaith ar gynaliadwyedd<br><br>Bydd y testun hwn yn ymdrin â chysyniadau lle a gofod, graddfa, proses, rhyngberthnasoedd, amrywiaeth, yr amgylchedd a dehongliad. | |
| Adran | Ymhelaethiad |
| 4.2.1<br>Sgiliau gwneud penderfyniadau | Dylai dysgwyr allu defnyddio'r sgiliau canlynol wrth wneud penderfyniadau:<br>• sgiliau cartograffig, graffigol, rhifiadol ac ystadegol<br>• sgiliau cyfathrebu<br>• sgiliau gwerthuso<br>• sgiliau dehongli<br>• sgiliau datrys problemau<br>• sgiliau cyfeirnodi. |
| 4.2.2<br>Defnyddio tystiolaeth i nodi materion | Dylai dysgwyr allu defnyddio ac ymchwilio i dystiolaeth er mwyn nodi materion daearyddol drwy:<br>• nodi gwybodaeth allweddol o fewn ffynonellau a deunyddiau ategol<br>• ymchwilio i wybodaeth briodol<br>• cyfuno'r wybodaeth er mwyn nodi'r mater yn glir<br>• cyfeirnodi'r wybodaeth ymchwil<br>• cydnabod gwybodaeth gamarweiniol neu annilys, gan gynnwys rhagfarn a buddiannau breiniedig. |
| 4.2.3<br>Manteision posibl yr opsiynau sy'n cael eu cynnig | Dylai dysgwyr allu ystyried manteision posibl yr opsiynau sy'n cael eu cynnig o ran:<br>• y gymdeithas (gan gynnwys hawliau dynol ac amrywiaeth)<br>• yr economi<br>• yr amgylchedd. |
| 4.2.4<br>Effeithiau negyddol posibl yr opsiynau sy'n cael eu cynnig | Dylai dysgwyr allu ystyriedeffeithiau negyddol posiblyr opsiynau sy'n cael eu cynnig o ran:<br>• y gymdeithas (gan gynnwys hawliau dynol ac amrywiaeth)<br>• yr economi<br>• yr amgylchedd. |
| 4.2.5<br>Asesiad o'r effaith ar gynaliadwyedd | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• cynnal asesiad o effaith yr opsiynau sy'n cael eu cynnig ar gynaliadwyedd<br>• esbonio pam y gallai rhai opsiynau neu syniadau fod wedi'u gwrthod<br>• dod i benderfyniad yn seiliedig ar yr asesiad o effaith yr opsiwn gorau posibl ar gynaliadwyedd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae TGAU Daearyddiaeth yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni chaiff y profiadau eu hasesu'n uniongyrchol):

- gwneud defnydd priodol o dechnoleg ddigidol wrth gwblhau'r cymhwyster, er enghraifft drwy ddefnyddio delweddau lloerenni a mapiau digidol
- meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd, drwy astudio gwahanol gyd-destunau daearyddol
- cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol (ac eithrio gwaith maes) wyneb yn wyneb neu'n ddigidol
- gweithio ar y cyd

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 3 ASESU

Bydd y Pecyn Asesu yn cynnwys yr holl wybodaeth fanwl sy'n ymwneud ag asesu.

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr wneud y canlynol:

**AA1**
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o leoedd, pobl, amgylcheddau a phrosesau ar amrywiaeth o raddfeydd

**AA2**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o dermau, sgiliau a chysyniadau daearyddol at wahanol gyd-destunau

**AA3**
Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau o amrywiaeth o ffynonellau, gan syntheseiddio lle bo'n briodol

**AA4**
Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau yn ymarferol a ddefnyddir gan ddaearyddwyr i gefnogi ymholiad daearyddol

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu i bob uned ac i'r cymhwyster yn gyffredinol.

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 15% | 10% | 5% | - | 30% |
| Uned 2 | - | 5% | 5% | 15% | 25% |
| Uned 3 | 10% | 10% | 10% | - | 30% |
| Uned 4 | - | 5% | 5% | 5% | 15% |
| Pwysoliad cyffredinol | **25%** | **30%** | **25%** | **20%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 3.2 Trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad

Uned 2: Trosolwg

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gynnal ymholiad gwaith maes yn dilyn y broses ymholi chwe cham.

Bydd yr aseiniad, sy'n cynnwys sawl tasg, yn cael ei rannu â chanolfannau mewn Pecyn Asesu drwy wefan Porth CBAC. Ni fwriedir i'r tasgau newid am hyd oes y cymhwyster. Bydd y ddwy thema a ddewisir yn newid bob blwyddyn. Gall canolfannau ddewis **un** o'r ddwy thema. Cyhoeddir y themâu yn y Llawlyfr Asesu Di-arholiad Uned 2 am bum mlynedd. Bydd yn cael ei ddiweddaru i sicrhau bod gwerth pum mlynedd o themâu bob amser i ganiatáu ar gyfer blaengynllunio. Mae gan ganolfannau yr hyblygrwydd i benderfynu pryd yn ystod y flwyddyn y mae dysgwyr yn gwneud yr aseiniad. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod canolfannau'n dewis y testun o'r flwyddyn y maent yn bwriadu cyflwyno'r gwaith i'w farcio gan y gallai fod yn wahanol i'r flwyddyn y mae'r ymgeiswyr yn gwneud yr asesiad. Os bydd ymgeiswyr yn dewis ailsefyll yr uned hon yn hwyrach ymlaen, rhaid iddynt gynnal ymholiad gwaith maes ar gyfer un o'r themâu a ddewiswyd ar gyfer y flwyddyn academaidd maent yn cyflwyno gwaith ynddi.

Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 25% at radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 7 awr i ymgeiswyr gwblhau'r tasgau (nid yw hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i wneud y gwaith maes). Bydd y tasgau'n cael eu marcio allan o gyfanswm o 90 marc.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy aseiniad wedi'i osod yn allanol. Bydd yn cael ei osod a'i farcio gan CBAC. Rhaid cyflwyno asesiadau'n ddigidol (gellir eu hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu eu cwblhau'n ddigidol).

Bydd disgwyl i ganolfannau wneud gwaith maes ar gyfer ymholiad Uned 2 ar un diwrnod, y tu allan i'r ystafell ddosbarth a thiroedd yr ysgol. Rhaid cynnwys datganiad gwaith maes i gyd-fynd â'r gwaith i'w gyflwyno ar-lein, wedi'i lofnodi gan Bennaeth y Ganolfan, ac yn cadarnhau bod un diwrnod o waith maes wedi'i gynnal ar un o'r testunau o'r flwyddyn gyflwyno. Anogir canolfannau i ymgymryd â gwaith maes pellach yn ystod y cwrs, naill ai i ategu dysgu neu i ymarfer ar gyfer ymholiad Uned 2. Fodd bynnag, nid oes angen datgan hyn ar y datganiad gwaith maes. Rhaid cyflwyno'r datganiad gwaith maes erbyn 24 Mawrth fan bellaf yn y flwyddyn gyflwyno. Bydd CBAC yn trin unrhyw fethiant i gyflwyno datganiad fel achos o gamymddwyn.

Uned 4: Trosolwg

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gynnal ymarfer gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar Becyn Adnoddau sy'n cynnwys materion cynaliadwy â nifer o opsiynau posibl. Yng Ngham 1 y broses gwneud penderfyniadau bydd angen i ymgeiswyr ymchwilio i'r mater y tu hwnt i'r Pecyn Adnoddau. Yna dylai ymgeiswyr gynhyrchu nodiadau heb fod yn fwy na dwy ochr papur A4 i'w defnyddio yn ystod yr asesiad. Bydd y nodiadau hyn yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r ymateb i'r tasgau.

Bydd yr aseiniad, gan gynnwys y Pecyn Adnoddau, yn cael ei ryddhau yn ystod wythnos gyntaf mis Medi i'w asesu yn y flwyddyn academaidd honno. Bydd y Pecyn Adnoddau yn newid bob blwyddyn. Ni ddylai dysgwyr gael mynediad i'r Pecyn Adnoddau tan ddechrau'r asesiad. Mae gan ganolfannau yr hyblygrwydd i benderfynu pryd yn ystod y flwyddyn y mae dysgwyr yn gwneud yr aseiniad.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Mae'r asesiad hwn yn cyfrannu 15% at radd gyffredinol y cymhwyster a bydd yn cymryd 6 awr i'w gwblhau. Gellid cwblhau'r aseiniad mewn un sesiwn, neu mewn nifer o sesiynau byrrach. Bydd yr aseiniad yn cael ei farcio allan o gyfanswm o 60 marc.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu drwy aseiniad wedi'i osod yn allanol a fydd yn cael ei farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC. Rhaid cyflwyno asesiadau'n ddigidol (gellir eu hysgrifennu â llaw a'u sganio, neu eu cwblhau'n ddigidol).

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau camymddwyn CBAC. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Daearyddiaeth.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am unrhyw achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru a dyfarnu

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd 1, Uned 2 ac Uned 3 ar gael yn 2026 (a phob blwyddyn wedi hynny). Bydd Uned 4 ar gael yn 2027 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster am y tro cyntaf yn haf 2027.

<u>Ymgeiswyr Cyn-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n 16 oed neu iau ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd maen nhw’n cael eu cofrestru ynddi)</u>

Pennir y rheol derfynol ar 40% o gymhwyster cyffredinol TGAU Daearyddiaeth i ymgeiswyr Cyn-16.

Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailsefyll yn cyfrannu at y gofyniad rheol derfynol o 40%, marc yr asesiad newydd fydd yn cyfrif waeth beth fo'u canlyniadau blaenorol yn yr asesiad hwnnw.

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Defnyddir y sgôr marciau unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y rheol derfynol yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau 40% o'r asesu sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi.

Os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru amdani am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ailgofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau arholiad a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys i gael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll yn y gyfres olaf y gall ei hailsefyll.

Gellir defnyddio marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

<u>Ymgeiswyr Ôl-16 (h.y. ymgeiswyr sy'n 16 neu'n hŷn ar 1 Medi yn y flwyddyn academaidd maen nhw’n cael eu cofrestru ynddi)</u>

Nid oes rheol derfynol sy'n berthnasol i Ymgeiswyr ôl-16 ar gyfer TGAU Daearyddiaeth.

Nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gall ymgeisydd ailsefyll uned unigol; fodd bynnag, defnyddir y sgôr marc unffurf gwell o'r ddwy ymgais ddiweddaraf wrth gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol.

Nid yw'r rheol 'dechrau o'r newydd' yn berthnasol i ymgeiswyr ôl-16.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn gymwys i gael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll yn y gyfres olaf y gall ei hailsefyll.

Gellir defnyddio marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Nodir y codau cofrestru isod:

| | | Codau cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| **Uned 1** | Ein Byd Ffisegol a Dynol | 3140U1 | 3140N1 |
| **Uned 2** | Datblygu Sgiliau Gwaith Maes | 3140U2 | 3140N2 |
| **Uned 3** | Ein Byd Dynamig ac Amrywiol | 3140U3 | 3140N3 |
| **Uned 4** | Datrysiadau Cynaliadwy | 3140U4 | 3140N4 |
| **CBAC TGAU Daearyddiaeth** | | 3140QS | 3140CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn nodi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*–G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

Mae canlyniadau unedau unigol yn cael eu hadrodd ar raddfa marciau unffurf (GMU) gan gyfateb i'r graddau canlynol:

| | UCHAF | A* | A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 180 | 162 | 144 | 126 | 108 | 90 | 72 | 54 | 36 |
| **Uned 2** | 150 | 135 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 | 45 | 30 |
| **Uned 3** | 180 | 162 | 144 | 126 | 108 | 90 | 72 | 54 | 36 |
| **Uned 4** | 90 | 81 | 72 | 63 | 54 | 45 | 36 | 27 | 18 |
| **Dyfarniad Pwnc** | 600 | 540 | 480 | 420 | 360 | 300 | 240 | 180 | 120 |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Themâu Trawsgwricwlaidd | | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Agwedd cynaliadwyedd Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hawliau Dynol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amrywiaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Llythrennedd | | | | |
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | **Uned 1** | **Uned 2** | **Uned 3** | **Uned 4** |
|---|---|---|---|---|
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 | Uned 4 |
|---|---|---|---|---|
| Cymhwysedd Digidol | | | | |
| Dinasyddiaeth | | ✓ | | ✓ |
| Rhyngweithio a Chydweithio | | ✓ | | |
| Cynhyrchu | | ✓ | | ✓ |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Cyfannol | | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | | ✓ | | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Atodiad B: Defnyddio mathemateg ac ystadegau mewn daearyddiaeth

Bydd y rhestr isod yn eich cefnogi i ymdrin ag ystod briodol o sgiliau yn eich gwaith o addysgu'r fanyleb.

*Nodir yr enghreifftiau (mewn llythrennau italig) er mwyn hwyluso dealltwriaeth ac awgrymu amrediad.*

| Mathau o sgiliau | Technegau penodol |
|---|---|
| **Sgiliau rhifiadol ac ystadegol** | |
| **1 Sgiliau rhifiadol**<br>1.1 Dangos dealltwriaeth o rif, arwynebedd a graddfa a'r rhyngberthnasau meintiol rhwng unedau. | *Cyfrifo'r pellter o fapiau gan ddefnyddio'r llinell raddfa a'r ardal amcangyfrifedig. Defnyddio gosodiadau meintiol wrth ddisgrifio'r rhyngberthnasau sy'n cael eu datgelu gan dablau data neu graffiau.* |
| 1.2 Dylunio taflenni casglu data gwaith maes a chasglu data gan ddangos dealltwriaeth o fanwl gywirdeb, maint y sampl a gweithdrefnau, grwpiau rheoli a dibynadwyedd. | Samplu gan ddefnyddio technegau ar hap, systematig, oportiwnistaidd a/neu haenog. Defnyddio cyfarpar gwaith maes i gael canlyniadau cywir a dibynadwy *(er enghraifft, defnyddio clinometr neu gwadratau).* Gwneud llinfapiau a brasluniau maes i gyflwyno a dehongli data. |
| 1.3 Deall a defnyddio cyfran a chymhareb yn gywir. | *Er enghraifft, digwyddiadau llifogydd 1:200 mlynedd.* |
| 1.4 Dod i gasgliadau hyddysg o ddata rhifiadol. | *Defnyddio tablau data i ddod i gasgliadau yn seiliedig ar dystiolaeth am batrymau gofodol neu amseryddol (er enghraifft, data cyfrifiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol).* |
| **2 Sgiliau ystadegol**<br>2.1 Defnyddio mesurau priodol ar gyfer canolduedd, gwasgariad ac amledd cronnus. | Canolrif, cymedr, ystod, chwartelau ac amrediad rhyngchwartel, modd a dosbarth moddol. |
| 2.2 Cyfrifo'r cynnydd neu'r gostyngiad canrannol a deall y defnydd o ganraddau. | *Er enghraifft, cyfrifo'r cynnydd/gostyngiad canrannol yn y boblogaeth o graff llinell neu dabl data.* |
| 2.3 Defnyddio data ar gyfer dosbarthu. | Defnyddio ystadegau datblygu i ddosbarthu gwledydd ar wahanol lefelau o ddatblygiad. |
| 2.4 Disgrifio rhyngberthnasau o fewn data deunewidyn. | Braslunio tueddlinau drwy blotiau gwasgariad; lluniadu llinellau ffit orau wedi'u hamcangyfrif. Dehongli tystiolaeth er mwyn llunio rhagfynegiadau. Rhyngosod ac allosod tueddiadau ar graff llinell. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 2.5 Nodi gwendidau wrth gyflwyno data ystadegol detholus. | Nodi cyfyngiadau *(er enghraifft, wrth ddehongli graff gwasgariad).* |
| **Mathau o sgiliau y mae'n rhaid eu datblygu** | **Technegau penodol** |
| **Sgiliau cyflwyno a phrosesu**<br><br>**3.1 Sgiliau cartograffig**<br>3.1 Defnyddio a deall graddiant, cyfuchliniau a phwyntiau uchder ar fapiau Arolwg Ordnans a mapiau isolinell eraill. | Dehongli mapiau atlas ar wahanol raddfeydd, mapiau topolegol, mapiau Arolwg Ordnans ar raddfeydd o 1:50,000 a 1:25,000, mapiau isolinell (*er enghraifft, siartiau tywydd, siartiau bathymetrig cefnforoedd)*, mapiau â symbolau cyfrannol, siartiau tywydd (synoptig). |
| 3.2 Dehongli trawstoriadau a thrawsluniau. | Dehongli trawstoriadau *(er enghraifft, sy'n dangos tirwedd)* a thrawsluniau *(er enghraifft, drwy ardaloedd twyn tywod neu ar draws llwybr troed sydd wedi erydu).* |
| 3.3 Defnyddio a deall cyfesurynnau, graddfa a phellter. | Rhoi cyfeirnodau grid 4 a 6 ffigur. Mesur pellter yn fanwl gywir ac amcangyfrif arwynebedd o fapiau (gan gynnwys o fapiau Arolwg Ordnans ar raddfa o 1:50,000 a 1:25,000). |
| 3.4 Disgrifio a dehongli data daearyddol-ofodol a gyflwynir mewn fframwaith GIS. | Disgrifio lleoliad, dosraniad a phatrymau gofodol eraill fel mae delwedd ddigidol, ffotograff neu sgrinlun o GIS yn eu dangos *(er enghraifft, Swyddfa Ystadegau Gwladol neu ddadansoddiad o'r perygl o lifogydd gan ddefnyddio'r mapiau rhyngweithiol ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru).* |
| **4 Sgiliau graffigol**<br>4.1 Dewis a llunio graffiau a siartiau priodol i gyflwyno data, gan ddefnyddio graddfeydd priodol. | Siartiau bar a llinell/sawl llinell (i gynnwys graffiau hinsawdd a hydrograffau), ffeithluniau, siartiau cylch, diagramau clystyru gwasgariad (*dispersion*) a graffiau gwasgariad. |
| 4.2 Dehongli a chael gafael ar wybodaeth o wahanol fathau o graffiau. Dehongli gwahanol graffiau er mwyn nodi patrymau a thueddiadau. | *Gweler y technegau a restrir uchod ar gyfer 4.1,* yn ogystal â phictogramau, histogramau gyda chyfyngau dosbarth cyfartal, graffiau sêr a rheiddiol, diagramau barcud a graffiau trionglog. |
| 4.3 Dehongli mapiau coropleth a mapiau lliflin. | Mapiau cloropleth (*er enghraifft, y rheini sy'n dangos amrywiadau o ran datblygiad economaidd)*<br>Mapiau lliflin gyda saethau cyfrannol *(er enghraifft, gan ddangos llifoedd mudo, twristiaeth neu draffig).* |

© WJEC CBAC Ltd. 2024